

Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, 14 Mai 2026, 7.00 yh yn y Neuadd Drefol
General Meeting of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth 14 Mai 2026 at 7.00pm in the Neuadd Drefol

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod yn y Neuadd Drefol neu arsylwi'n rhithol drwy gysylltu â ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

Members of the public can join the meeting in the Neuadd Drefol or remotely by contacting
ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

1. **Croeso/*Welcome*** Croesawyd pawb/ *Welcome to all.*
2. **Presennol ac Ymddiheuriadau/ *Present and apologies***
 - 2.1 **Presennol/*Present*:** Einir Williams (Cadeirydd), Ashley Jones (is-gadeirydd), Y cyng. Meryl Roberts, Sarah Roberts, Sian Llywelyn, Tony Owen, Emma Fon Orr, Steven Murray (Clerc Asedau) a Rhiannon Davies-Jones (Clerc).
 - 2.2 **Ymddiheuriadau/*Apologies*:** Gwyn Vaughan Jones a Sion Harris.
3. **Cymeradwyo cofnodion Ebrill / *Approve April minutes*** - Cymeradwywyd gan/*accepted by AJ a TO.*
4. **Datgan buddiant, cysylltiad, diddordeb/ *Declaration of interest, benefits, connection*** - Dim/*None.*
5. **Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol/*Matter arising from the previous minutes*** - Cadarnhaodd RDJ ein bod wedi trafod y mater ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda PCSO. Roeddent yn hapus i grŵp Gwarchod y Gymdogaeth gael ei sefydlu i helpu'r gymuned. Fodd bynnag, roeddent yn cyngori yn erbyn patrolau cymunedol./ *RDJ confirmed that we had discussed the anti-social behaviour matter with a PCSO. They were happy for a Neighbourhood watch group to be set up to help the community. However, they advise against community patrols.*
6. **Adroddiad ariannol / *financial report***
 - 6.1 Y llyfr arian/ *Cash book*

I FEWN

R&M Utilities - rhent Maes parcio	£800.00
Dref Werdd - rhent Neuadd Drefol	£100.00

Pobl Odd - rhent Neuadd Drefol	£20.00
Liz Lane - rhent Neuadd Drefol	£17.50
Meryl Roberts - rhent Neuadd Drefol	£50.00
Cyngor Gwynedd - croeso cynnes	£317.22
Angladdau Enfys - claddu llwch	£262.00
Smartwater	£12.00
Cyngor Gwynedd - praesept	£46,457.00
CPD Penrhyndeudraeth - rhent	£100.00

ALLAN

BT - internet	£39.54
Alan Williams - cynnal a chadw	£210.00
Cameron Jones - torri gwair	£1300.00
Ffon Clerc	£13.63
NEST - pensiwn	£62.79
Dwr Cymru - dwr swyddfa	£94.85
Rhiannon - Cyflog Clerc	£1794.39
Steven - Cyflog	£1279.00
PAYE & NIC	£392.44
Dunn & Ellis - ffioedd	£125.10
British Gas - gas swyddfa	£50.31
Xero UK Ltd - cyfrifon	£44.40
Smartest energy - trydan swyddfa	£54.22
Chat GPT	£7.00
Pritchard a Griffiths - ail agor bedd	£110.00
Zoom	£16.79
Spar - Penrhyn - cardyn	£1.99
Huws Gray - 2 clo a fent	£45.63
Amazon - hardrive newydd camera	£72.99
Cyngor Gwynedd - ad-daliad	£158.61 (talw nol)
Arfon Davies - ffenestri	£25.00
Wicksteed - arolygiad	£446.40
B Jones & Sons - boiler	£90.00

7. Eitemau i'w trafod/ *Items for Discussion*

7.1 Gwefan Cyngor Tref/ *Town Council Website* - Adolygodd y Cynghorwyr y tri dyfynbris gan y cwmnïau gwefannau a chadarnhawyd eu bod yn hapus i fwrw ymlaen gyda'r cynnig a dderbyniwyd gan Aubergine. Cadarnhaodd RDJ y byddai'n cysylltu ag Aubergine wythnos nesaf er mwyn dechrau'r broses/ *The Councillors reviewed the three quotes from the website companies and confirmed that they were happy to proceed with the proposal received from Aubergine. RDJ confirmed that she would get in touch with Aubergine next week to start the process.*

7.2 Addewid Cwrteisi a Pharch/ *Civility and Respect Pledge* (Un Llais Cymru) - Darllenodd EW y ddogfen Addewid Cwrteisi a Pharch a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru, a chytunwyd gan bawb y byddai'r addewid yn cael ei fabwysiadu/ *EW read the Civility and Respect Pledge document received from One Voice Wales and it was agreed by all that the pledge would be adopted.*

7.3 Llythyr gan Ymddiriedolaeth William Morris Jones/ *Letter from the William Morris Jones Trust* - Darllenodd EW y llythyr a dderbyniwyd gan Ken Gruffudd ynglŷn â Ymddiriedolaeth William Morris Jones a gofynnodd a fyddai unrhyw Gynghorwyr yn fodlon cynorthwyo gyda'r mater. Cytunodd Meryl Roberts a Nia Jones y byddent yn hapus i helpu/ *EW read out the letter received from the Ken Gruffudd regarding the William Morris Jones and asked if any Councillors would be willing to assist with the matter. Meryl Roberts and Nia Jones agreed that they would be happy to help.*

7.4 Cronfa Cefnogi Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned 2026/ *Town and Community Councils Support Fund 2026* - Cadarnhaodd RDJ i'r Cyngorwyr fod Cronfa Gymorth Cyngorau Tref a Chymuned 2026 ar gael, ac ein bod yn gymwys i dderbyn £7,500 ar gyfer prosiectau cymunedol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 15 Mehefin 2026. Awgrymodd RDJ efallai y gellid defnyddio'r grant tuag at brynu mwy o offer ar gyfer y parc ym Minffordd. Cytunodd y Cyngorwyr gyda hyn ac awgrymwyd efallai y gellid prynu "see-saw" i ychwanegu at y parc. Byddai'r pwyllgor grantiau yn cael 3 dyfynbris gan gwmnïau gwahanol ac yna'n cysylltu yn ôl gyda RDJ er mwyn iddi allu paratoi'r cais grant.

RDJ confirmed to the Councillors that the Town and Community Councils Support Fund 2026 was available, and that we were eligible to receive £7,500 for community projects. The deadline for applications is 15 June 2026. RDJ suggested that the grant could perhaps be used towards purchasing additional equipment for the park in Minffordd. The Councillors agreed with this suggestion and proposed that a see-saw could be purchased to add to the park. The Grants Committee would obtain three quotes from different companies and then report back to RDJ so that the grant application could be prepared.

7.5 Parc Adwy Ddu/ Adwy Ddu Park - Cadarnhaodd MR ei bod yn rhan o bwyllgor sydd wedi'i sefydlu i gefnogi parciau lleol sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd. Mae'r Pwyllgor wedi dod yn ymwybodol o ddarn o dir y tu ôl i Adwy Ddu sydd ym mherchnogaeth Adra. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i glirio'r safle, ac mae trafodaethau wedi bod yn cael eu cynnal gydag Adra a Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddatblygu'r tir yn barc beiciau. Esboniodd MR fod y Pwyllgor wedi edrych ar y posibilrwydd o brydlesu'r tir gan Adra, ond eu bod wedi cael gwybod y byddai angen iddynt gofrestru fel elusen cyn y gellid ystyried hyn. Gofynnodd MR felly a fyddai CTP yn fodlon prydlesu'r tir gan Adra yn lle hynny. Cafwyd trafodaeth rhwng y Cyngorwyr, gyda rhai yn codi pryderon ynghylch

goblygiadau prydlesu neu dderbyn perchnogaeth o'r tir, yn enwedig mewn perthynas ag yswiriant a chyfrifoldebau parhaus. Cadarnhaodd MR ei bod yn aros am ymateb gan Adra ynghylch a fyddent yn fodlon prydlesu neu roi'r tir i CTP. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach unwaith y byddai ymateb wedi'i dderbyn.

MR confirmed that she is part of a committee which has been established to support local parks owned by Gwynedd Council. The Committee has become aware of an area of land behind Adwy Ddu which is owned by Adra. Work has already begun to clear the site, and discussions have taken place with Adra and Gwynedd Council regarding the possibility of developing the land into a bike park. MR explained that the Committee had explored the possibility of leasing the land from Adra, however they had been advised that they would need to register as a charity before this could be considered. MR therefore asked whether CTP would be willing to lease the land from Adra instead.

A discussion took place between the Councillors, with some concerns raised regarding the implications of leasing or accepting ownership of the land, particularly in relation to insurance and ongoing responsibilities. MR confirmed that she is currently awaiting a response from Adra regarding whether they would be willing to lease or gift the land to CTP. It was agreed that the matter would be discussed further once a response had been received.

8. Eitemiau sefydlog/Regular items

- 8.1 Mynwent Minffordd Cemetery - Dim byd mawr i'w adrodd. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa baw cŵn wedi gwella ers gosod yr arwyddion/ *Nothing major to report. The dog fouling situation appears to have improved since the signs were installed.*
- 8.2 Parc Mileniwm/ *Millennium Park* - Cadarnhaodd RDJ fod balans o £8,352.76 yn ddyledus i Rock Engineering am y gwaith a wnaed yn y parc pêl. Gofynnodd RDJ i'r Cynghorwyr gadarnhau a oeddent yn hapus i'r balans terfynol gael ei dalu. Cytunodd pawb. Gofynnodd MR a oedd modd prynu paent er mwyn paentio'r ffens yn y maes chwarae. Cytunwyd i hyn. Awgrymodd EW y dylid paentio'r ffens yn goch, gwyn a gwyrdd. Cytunodd pawb, ac awgrymwyd y byddai'r Cynghorwyr yn cyfarfod mis nesaf i drefnu dyddiad ar gyfer gwneud y gwaith paentio/ *RDJ confirmed that there is an outstanding balance of £8,352.76 due to Rock Engineering for the work undertaken at the ball park. RDJ asked the Councillors to confirm whether they were happy for the final balance to be paid. All agreed. MR asked whether paint could be purchased so that the fence in the playground could be painted. This was agreed. EW suggested that the fence be painted red, white and green. All agreed, and it was suggested that the Councillors meet next month to arrange a date for the painting work to be carried out.*

- 8.3 Cae Cookes - Cadarnhaodd SM ein bod dal yn aros i glywed yn ol gan Hochief ynglyn â'r samplau dwr a phridd. Maent wedi cael eu dilyn i fyny. Ni ellir gwneud dim pellach nes bydd y samplau wedi cael eu cymrud a dadansoddi/ *SM confirmed that we are still waiting to hear from Hochief regarding the water and soil samples. They have been chased. Nothing further can be done until the samples have been taken and analysed.*
- 8.4 Cae Chwaraau Minffordd *Playground* - Soniodd EFO fod problem i weld gyda'r gylchfan a gofynnodd a allai rhywun edrych ar hyn/ *EFO mentioned that there seems to be a problem with the roundabout and asked if someone could check this.*
- 8.5 Maes y Parc - Trafododd y Cynghorwyr y pris a dderbyniwyd gan SH ynglŷn â'r gwaith gwella y maent yn dymuno ei wneud ar y cae arall ym Maes y Parc. Cytunodd y Cynghorwyr y byddai cyfraniad o £4,000 yn cael ei wneud tuag at wella'r caeau/ *The Councillors discussed the quote that had been received from SH regarding the improvement work that they want to carry out on the other field at maes y parc. The Councillors agreed that a contribution of £4000 would be made towards the improvement of the fields.*
- 8.6 Ffyrdd a parcio / parking and road - Soniodd SM y bydd y ffordd i mewn i Bant ar gau am 3 diwrnod o'r 1af o Orffennaf ymlaen ar gyfer gwaith sydd angen ei wneud gan Dŵr Cymru. Gofynnodd y Cynghorwyr a oedd unrhyw ddiweddariad ynglŷn â'r goleuadau uwchben Siop Premier. Cadarnhaodd MR fod y mater wedi'i riportio i'r heddlu ac i Gyngor Gwynedd eto, a bod y ddau wedi ymweld â'r siop. /*SM mentioned that the road in to Pant will be closed for 3 days from the 1st July for work that needs to be undertaken by Welsh Water. Councillors asked whether there was any update on the lights above the Premier Shop. MR confirmed that the matter had been reported to the police and to the Gwynedd council again and both had attended the shop.*

9. Gohebiaeth/ Correspondence

- 9.1 Pwyllgor Ardal Meirionydd 14 Ebrill 26/ *Meirionydd Area Committee Meeting 14 April 26* - Er gwybodaeth/FYI.
- 9.2 Newyddlen Cyllid Ebrill 26 - Un Llais Cymru/ *Finance Newsletter April 26* - *Un Llais Cymru* - Er gwybodaeth/FYI.
- 9.3 E-bost gan Perthyn - Cefnogi Cymunedau ar draws Gwynedd/ *Email from Perthyn - Supporting Communities in Gwynedd* - Er gwybodaeth/FYI.
- 9.4 Prosiect Argrfwng Costau Byw - Gwybodaeth ac Adnoddau - Un Llais Cymru/ *Cost of Living Crisis Project - Information and Resources* - *Un Llais Cymru* - Er gwybodaeth/FYI.
- 9.5 Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionydd Ebrill 26- *Un Llais Cymru/Minutes of the Meirionydd Area Committee 26* - *Un Llais Cymru* - Er gwybodaeth/FYI.

9.6 Y Llais - Rhifyn 2 - Un Llais Cymru/ *The Voice - Issue 2 - Un Llais Cymru* - Er gwybodaeth/*FYI*.

9.7 Dref Werdd - Rhaglen Camau Creadigol/ *Camau Creadigol Programme* - Er gwybodaeth/*FYI*.

10. Materion Cynllunio/Planning Matters

10.1 Ymgynghoriad Cynllunio: Rhif Cais: C25/0946/44/EIA - *Planning Consultation - Land Along the A483 Corridor, Porthmadog* - Dim gwrthwynebiad/ *No objections*.

11. Adroddiadau/Reports

11.1 Adroddiad misol Cyngorydd sir Meryl Roberts *County Councillor monthly report* - Dywedodd y Cyngorydd Sir ei bod wedi mynychu cyfarfod diweddar Un Llais Cymru, ond yn anffodus nid oedd llawer yn bresennol. Anogodd y Cynghorwyr i fynychu'r cyfarfod nesaf os oedd ganddynt amser.

Soniodd hefyd ei bod wedi mynychu cyfarfod llawn y Cyngor yng Nghaernarfon yr wythnos yma, lle trafodwyd ymgynghoriad newydd ynglŷn â'r dreth gwyliau arfaethedig. Esboniwyd bod y cynnig wedi'i wneud ar y sail y byddai'r arian a dderbynnir o'r dreth gwyliau yn cael ei ddychwelyd i Gyngor Gwynedd ac yn cael ei ddefnyddio i helpu i wella cymunedau lleol, addysg a chefnogaeth i'r henoed/ The County Councillor said that she had attended a recent One Voice Wales meeting, but unfortunately attendance had been low. She encouraged Councillors to attend the next meeting if they had the time.

She also mentioned that she had attended a full Council meeting in Caernarfon this week, where a new consultation regarding the proposed tourism tax was discussed. It was explained that the proposal had been made on the basis that the revenue received from the tourism tax would be returned to Gwynedd Council and used to help improve local communities, education, and support for older people.

Dyddiad cyfarfod nesaf 11 o Fehefin 2026 7yh yn y Neuadd Drefol/ Date and location of next meeting 11 June 2026 7pm in the Neuadd Drefol